# Antur. Am y tro cyntaf ac am oes.

## Ein strategaeth 10-mlynedd ar gyfer cysylltu pobl a lleoedd.



Dyddiad cyhoeddi:

# Ebrill 2020



Cadeirydd

**Margaret Hart**



Prif Weithredwr

**James Blake**

# Rhagair

Wrth inni ysgrifennu hyn mae bron 90 mlynedd yn union ers sefydlu'r YHA. Rydym yn falch o gyflwyno ein strategaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Cafodd ei datblygu drwy waith a wnaethpwyd drwy gydol 2019, a'i chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2020. Ychydig o fisoedd yn ôl, byddai'r rhagair hwn wedi canolbwyntio ar y ffaith fod y meddylfryd y tu ôl i'n strategaeth newydd, hirdymor wedi cael ei ysbrydoli gan hanes yr YHA. Ond mewn ychydig o wythnosau yn unig, mae effaith y coronafeirws ar y rhai a wasanaethwn a'r rhai yr anelwn at eu cyrraedd wedi bod yn anferth ac yn eang.

Yn ein hanes 90-mlynedd, y pandemig yw'r argyfwng mwyaf difrifol rydym erioed wedi'i brofi. Mae wedi achosi inni gau'r rhwydwaith hosteli cyfan am y tro cyntaf yn ein hanes. Mae'n cael effaith sylweddol ar ein cyllid a'n gallu i gyflawni ein heffaith yn 2020 ac o bosibl ymhellach i'r dyfodol. Eleni, oherwydd yr effaith ar yr YHA yn unig, bydd mwy na 200,000 o bobl ifanc yn colli'r cyfle i gael arhosiad a fyddai'n newid eu bywydau. I lawer, byddai hwn wedi bod yn wyliau cyntaf ac yn brofiad cadarnhaol prin yn eu plentyndod.

Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch y dyfodol. Eto i gyd mae'r cyfnod hwn wedi atgyfnerthu ein barn bod yn rhaid inni ddefnyddio hanes i lywio ein dyfodol. Nid y coronafeirws yw'r unig argyfwng mae'r YHA wedi ei wynebu o bell ffordd. Ac – yn union fel yr oedd i'n sylfaenwyr – mewn adfyd y gwelwn werth a bywiogrwydd ein rheswm dros fodoli.

Wedi ei sefydlu ym mis Ebrill 1930, daeth y gymdeithas genedlaethol allan o genedl mewn argyfwng. Arweiniodd cwymp y farchnad stoc yn 1929 at y Dirwasgiad Mawr. Crebachodd yr economi. Cododd diweithdra i'r entrychion. Fel y dywedodd ein cadeirydd cyntaf, Barclay Baron, ni allem fod wedi dewis adeg anos i ddechrau mudiad. Ond fe ddechreuodd.

Yn yr Ail Ryfel Byd, cwta 10 mlynedd ar ôl ei sefydlu, cafodd traean o hosteli YHA eu meddiannu'n orfodol i roi llety i filwyr oedd yn cael seibiant, i fod yn feysydd hyfforddi ar gyfer ambiwlansys, yn ysgolion dros dro neu'n wersylloedd cyfarfod a bwydo mewn argyfwng. Daethant yn llochesi i'r cleifion, y rhai agored i niwed, y ffoaduriaid a'r rhai oedd yn ddigartref oherwydd cyrchoedd awyr. Dros hanner canrif yn ddiweddarach, bu'n rhaid i'r YHA gau'r rhan fwyaf o'i hosteli am haf cyfan wrth i gefn gwlad frwydro yn erbyn clwy'r traed a'r genau.

Yn y ddau argyfwng, wynebodd yr arweinwyr lefel o gythrwfl a fwriodd amheuaeth ar ddyfodol hirdymor yr YHA. Ond yn y ddau achos, roedd yr YHA yn gryfach yn sgil y profiadau hyn: roedd yr angen am ein cenhadaeth yn gryfach, y ddadl dros ddiwygio sefydliadol yn fwy taer.

Mae ein strategaeth yn manteisio ar 90 mlynedd o brofiad o oresgyn helbulon a rheoli newid. Wrth inni ddod allan o ddinistr Covid-19, bydd gennym ran bwysig i'w chwarae yn yr ymdrech genedlaethol i ailadeiladu'r gymdeithas. Ac wedi'n hysbrydoli gan ein hanes, byddwn yn cysylltu pobl â'i gilydd, â natur, diwylliant a'r byd o'u cwmpas, ac â'r buddion unigryw o ran iechyd a lles a ddaw yn sgil teithio ac antur. Bydd ein strategaeth a'n gweledigaeth – y gall pob plentyn fwynhau buddion antur, am y tro cyntaf ac am oes – yn fwy taer byth. Rydym wedi ymrwymo i'r rhain o hyd, a byddant yn llywio ein penderfyniadau drwy'r cyfnod ansicr sydd o'n blaenau.

Diolch am ddarllen ein strategaeth 10-mlynedd. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i'w gwireddu.

**Margaret a James**

# Ni yw YHA

Rydym yn credu yng ngrym teithio ac antur. Bob blwyddyn, drwy ein rhwydwaith o 150 o hosteli ledled Cymru a Lloegr, rydym yn cysylltu bron miliwn o bobl â'i gilydd, â natur a'r awyr agored, â diwylliant ac â threftadaeth.

Mae hostela yn gwneud teithio ac antur yn hygyrch i bawb, ym mhobman. Mae'r YHA yn rhedeg safleoedd ledled Cymru a Lloegr — cymuned o fannau a rennir sy'n agored i bawb ac er budd pawb.

Rydym yn cynnig anturiaethau cynhwysol, mewn adeiladau hynod, mewn lleoedd rhyfeddol. Rydym yn falch o gael ein hystyried yn gyntaf drwy'r byd i gyd o ran boddhad gwesteion. Ond rydym ni'n llawer mwy na llety yn unig.

Rydym yn fenter gymdeithasol flaenllaw ac yn rhan o fudiad rhyngwladol 90 oed. Elusen ar genhadaeth i gyfoethogi bywydau pawb, ond yn enwedig pobl ifanc, a gwella iechyd corfforol, lles meddyliol a sgiliau bywyd drwy'r profiadau a grëwn.

Naw deg o flynyddoedd ers ein sefydlu, mae'r genedl yn wynebu heriau enbyd. Poblogaeth wedi'i tharo gan argyfwng. Y gymdeithas wedi'i hollti fwyfwy, gyda phobl wedi'u datgysylltu oddi wrth ei gilydd o fewn gwledydd a rhyngddynt. Argyfwng hinsawdd ar raddfa fyd eang ac â chanlyniadau byd-eang. Disgwyliadau uwch a mwy o bwysau ar bobl ifanc yn oes y rhyngrwyd.

Gallwn wneud cyfraniad pwysig i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Nid sefydliad amgylcheddol yn bennaf ydym ni, ond rydym mewn sefyllfa dda i gyfrannu at y gwaith o warchod byd natur. Nid sefydliad iechyd meddwl ydym ni, ond mae cyrsiau preswyl, gweithgarwch corfforol, bod yn yr awyr agored a diwylliant i gyd yn arwain at fwy o les a chysylltiadau rhwng pobl. Nid cadwyn o westai ydym ni, ond rhaid inni gynnal y safonau uchaf o ran arosiadau dros nos, bwyd a gwasanaeth cwsmeriaid.



**Gyda'r strategaeth hon byddwn yn cyrraedd mwy o bobl ac yn cynyddu ein heffaith, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai a allai gael y budd mwyaf, mewn oes lle mae ein hangen yn fwy nag erioed.**

## Darganfod ein dyfodol yn ein gorffennol

Yn 2020, blwyddyn ein pen-blwydd yn 90, awn yn ôl i'n gwreiddiau. Yn 1930, deilliodd ein mudiad o drychineb economaidd a galw am ddiwygio cymdeithasol. Roedd ein sylfaenwyr yn benderfynol o wella bywydau a chyfleoedd bywyd pobl ifanc oedd yn byw mewn dinasoedd prysur, llygredig, heb y gallu i fwynhau gweithgarwch, antur ac awyr iach. Heddiw mae honno'n sefyllfa mae llawer o bobl ifanc ynddi o hyd — sefyllfa a waethygir gan heriau newydd, cymhleth ac amrywiol.

## Adeiladu ar bopeth a fu

Mae ein strategaeth ddiwethaf wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Roedd yn canolbwyntio ar roi sylfaen fasnachol a gweithredol gadarn i'r YHA. Mae'r sylfaen hon wedi sicrhau ein bod yn goroesi ac yn caniatáu inni godi ein golygon ar gyfer y dyfodol. Gallwn weld eisoes — yn ein hosteli, yn ein pobl, ac ymhlith ein cefnogwyr — y potensial i gyflawni hyd yn oed mwy.

Os yw'r 10 mlynedd diwethaf wedi bod yn fater o foderneiddio ein busnes, bydd y 10 nesaf yn fater o foderneiddio ein cenhadaeth a dod yn elusen genedlaethol flaenllaw i bobl ifanc.

# Gweledigaeth a chenhadaeth uchelgeisiol

## Gweledigaeth

**Gall pawb fwynhau buddion antur, am y tro cyntaf ac am oes.**

Erbyn 2030, gall pob plentyn aros oddi cartref, teithio, profi antur a'r awyr agored, natur, diwylliant a threftadaeth.

Bydd yr YHA yn gweithio gydag eraill i roi terfyn ar yr anghydraddoldeb sy'n golygu nad yw rhai plant erioed wedi bod i draeth, ymweld ag amgueddfa na rholio i lawr bryn.

## Cenhadaeth

Cyfoethogi bywydau pawb, yn enwedig pobl ifanc, drwy ddarparu arosiadau gwych mewn hosteli a phrofiadau sy'n gwella iechyd corfforol, lles meddyliol a sgiliau bywyd.

## Rydym wedi ymrwymo i'n hamcan elusennol o hyd

Helpu pawb, yn enwedig pobl ifanc ag incwm cyfyngedig, i gael mwy o wybodaeth am gefn gwlad a'i hoffi a gofalu amdano'n fwy, a gwerthfawrogi gwerthoedd diwylliannol trefi a dinasoedd yn fwy, yn enwedig drwy ddarparu hosteli ieuenctid neu lety arall iddynt yn ystod eu teithiau, ac felly hybu eu hiechyd, eu hamdden a'u haddysg.





## Ein targedau pum-mlynedd:

- **Bod 5 miliwn o bobl o bob oed yn aros gyda'r YHA**
- **Bod yn sicr bod mynediad i bawb yn golygu pawb — bod y rhai sy'n aros gyda ni, yn cael budd o'n darpariaeth a'n cymorth, ein cyflogeion a'n gwirfoddolwyr, yn adlewyrchu demograffeg Cymru a Lloegr**
- **Sicrhau bod o leiaf 2.5 miliwn o blant a phobl ifanc yn cael arhosiad dros nos gyda'r YHA**
- **Sicrhau bod o leiaf 250,000 o'r plant a phobl ifanc hyn yn rhai sydd â'r bywydau mwyaf heriol**

Mae cyswllt annatod rhwng y pedwar targed hyn. Ni fyddwn wedi llwyddo os byddwn yn cynyddu ein cyrhaeddiad ond nid ein hamrywiaeth. Os cyrhaeddwn 2.5 miliwn o bobl ifanc ond nid y rhai sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol.

# Ein neges

**Ni yw'r YHA.**
**Rydym ni'n trawsnewid bywydau ifanc am byth drwy deithio ac antur go iawn.**
**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**

Mae gennym 140,000 o aelodau, llawer iawn ohonynt yn gefnogwyr ymroddedig â pherthynas gydol oes â hostela a'r YHA. Maen nhw'n gwybod o brofiad bod ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.

# Ein gwerthoedd

- Yn groesawgar a chynhwysol
- Yn falch o'n treftadaeth
- Yn frwd ynghylch ein diben
- Yn wybodus ac yn cynnig ysbrydoliaeth



**Rydym ni'n gwireddu gwerthoedd ein brand drwy**

# Fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad pobl yr YHA

### Cymwynasgar

Mae cymwynasgarwch yn fater o wneud bywyd yn haws i bobl eraill, bod yn groesawgar a chreu amgylchedd gweithio dymunol.

### Effeithlon

Mae bod yn effeithlon yn golygu bod yn drefnus, yn ystyriol wrth benderfynu, yn ddiwyd ac wedi ymrwymo i wella. Fel elusen, mae dyletswydd arnom i ddefnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau a allwn.

### Dilys

Mae bod yn ddilys yn cyfuno rhinweddau gonestrwydd, didwylledd a thryloywder. Mae'n fater o fod yn ddiffuant ac yn agored.

### Llawn parch

Mae parch yn fater o werthfawrogi amser, egni, safbwyntiau, cyflawniadau a dulliau gweithio cydweithwyr, gwirfoddolwyr a chefnogwyr. Mae'n fater o hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Cyd-dynnu fel tîm

Un tîm yw'r YHA. Ac er iechyd a llwyddiant y tîm, rydym yn cymryd cyfrifoldeb fel unigolion, yn dangos rhinweddau arweinyddiaeth bersonol ac yn cydweithio tuag at ein nodau.

# Ein damcaniaeth am newid

- Mae aros oddi cartref, a chysylltiadau â natur a'r awyr agored, treftadaeth a diwylliant, i gyd yn cael effaith gadarnhaol, y mae tystiolaeth ohoni, ar ganlyniadau mewn bywyd. Gwyddom fod meithrin sgiliau ar gyfer cyflogaeth, gwirfoddoli a bod yn rhan o gymuned, i gyd yn gwella cyfleoedd mewn bywyd a llesiant. A gwyddom fod cysylltiadau â natur yn helpu i warchod yr amgylchedd a gwella llesiant.
- Mae tystiolaeth yn dangos inni fod llawer o bobl wedi'u datgysylltu fwyfwy o'r pethau hyn.
- Gan ddefnyddio ein lleoedd a'n mannau rydym yn cysylltu pobl â'i gilydd, â natur a'r awyr agored, diwylliant a threftadaeth, ac â gweithgareddau sy'n cynorthwyo â datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd.
- Drwy wneud hyn rydym yn cynorthwyo â gwelliannau i iechyd corfforol pobl, eu hymdeimlad o les meddyliol, datblygiad sgiliau bywyd a rhagolygon am gyflogaeth. Rydym yn helpu i warchod natur a threftadaeth.

# Yn ymarferol

## Trwy ein rhwydwaith o fwy na 150 o hosteli, ac fel rhan o fudiad byd-eang, byddwn yn:

- cynnig profiadau cynhwysol sy'n galluogi pobl i fwynhau'r awyr agored, natur, diwylliant a threftadaeth i bawb, yn enwedig pobl ifanc
- targedu ein cymorth i gyrraedd y rhai sydd â'r nifer leiaf o gyfleoedd a'r mwyaf i'w ennill
- cynnig rhaglenni sy'n datblygu sgiliau bywyd a gwaith — drwy gyrsiau preswyl a rhaglen amrywiol o brofiad gwaith, gwirfoddoli a chyflogaeth hyblyg
- sicrhau bod ein lleoedd a'n mannau yn meithrin cysylltiadau rhwng pobl - hen ac ifanc, ar draws pob rhan o'r gymdeithas yng Nghymru a Lloegr a'r tu hwnt

Yn gyffredinol, rydym eisiau tyfu fel y bydd mwy o bobl yn aros gyda'r YHA ac yn cael profiad ohono - gan gynnwys cyfran fwy o bobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig - a chreu effaith fwy gyda phob arhosiad a phrofiad.

# Blaenoriaethau strategol

## Er mwyn ein helpu ni i greu newid, rydym wedi nodi 10 blaenoriaeth strategol - pump sy'n canolbwyntio ar ein heffaith ar bobl a phump sy'n ein galluogi i gyflawni hyn yn unol â'n gwerthoedd.

# Blaenoriaethau o ran effaith

1. Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau bod pawb yn golygu pawb, gan gynyddu maint a hyd a lled ein cyrhaeddiad a sicrhau bod yr YHA i bawb; **byddwn yn hybu cynhwysiant cymdeithasol a mynediad teg** gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc iau na 26 oed a thrwy fynd ati i dargedu ein hymdrechion ar y rhai sydd â bywydau heriol.

> Sicrhau bod pawb yn golygu pawb yw ein blaenoriaeth graidd. Rydym yn elusen sy'n dal ein hadnoddau mewn ymddiriedolaeth i'r cyhoedd i gyd.
>
> Mae cyfrifoldeb moesegol arnom i sicrhau ein bod yn lleihau unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag gallu defnyddio ein gwasanaethau. Sicrhau bod ein defnyddwyr yn adlewyrchu'r cyhoedd yn gyffredinol.
>
> Mae'n hollbwysig yn fasnachol sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn ein cael ni'n berthnasol, yn cael profiad cadarnhaol fel defnyddiwr, ac wedyn yn aros, ymaelodi, rhoi, a gwirfoddoli gyda ni.

2. **Byddwn yn sicrhau y gall mwy o bobl aros oddi cartref ac yn gwella cysylltiadau â natur, yr awyr agored, treftadaeth a diwylliant** – gan gydnabod bod ein rhwydwaith o hosteli yn cynnig cyfle unigryw i wneud y pethau hyn i'r lliaws, nid y lleiafrif.

3. **Byddwn yn gwella lles corfforol a meddyliol** drwy ddarparu gweithgareddau a rhaglenni a thrwy gynorthwyo pobl i drefnu eu gweithgareddau eu hunain gan ddefnyddio ein hosteli fel canolfan – drwy arosiadau dros nos ac fel rhan o ymweliadau dydd.

4. **Byddwn yn meithrin sgiliau bywyd a chyflogadwyedd** drwy ddatblygu Campws yr YHA a Chwricwlwm yr YHA – i'n staff, gwirfoddolwyr a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw.

> Adeiladau a thiroedd sy'n ffurfio lle dysgu yw campws. Mae Campws yr YHA yn cynnwys 153 o hosteli sy'n darparu mwy nag 1 miliwn o oriau o ddysgu y flwyddyn i fwy na 100,000 o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda ni, mwy na 1,000 o wirfoddolwyr ifanc gweithgar a mwy na 250 o gyflogeion ifanc.
>
> Rydym yn edrych ar sut y gallwn ddatblygu maint, cyrhaeddiad a chynnyrch Campws yr YHA dros y pum mlynedd nesaf, a'u cysylltu â'i gilydd mewn llwybr ystyrlon sy'n cynorthwyo â datblygiad pobl ifanc.
>
> Y pynciau a'r profiadau sy'n ffurfio sail i raglen dysgu yw cwricwlwm. Y sgiliau a'r wybodaeth yr ydych yn eu dysgu. Ar sail y dystiolaeth o'n heffaith, bydd Cwricwlwm yr YHA yn rhoi braslun o'r hyn y gall pobl ifanc ei ddysgu drwy Gampws yr YHA. Boed ar raglen gweithgarwch neu brofiad preswyl neu drwy weithio neu wirfoddoli gyda'r elusen.

5. **Byddwn yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol.** Byddwn yn annog gwahanol sectorau o'r gymuned sy'n ymweld â ni – dros nos ac am ymweliadau dydd – i ddysgu oddi wrth ei gilydd a gyda'i gilydd. Rydym yn rhan o'r economi rhannu. Byddwn yn defnyddio ein lleoedd a'n mannau yn y ffordd orau, a'n rhaglen gweithgareddau hefyd, i feithrin cysylltiadau cryfach â chymunedau lleol.

> Mae llawer o bobl heb sylweddoli bod gennym gaffis, toiledau a chyfleusterau dydd. Mae eraill heb sylweddoli nad oes rhaid ichi fod yn aelod i aros. Ond unwaith y byddant yn ymweld, mae llawer yn selogion gyda ni am oes.
>
> Operation Threshold yw ein cynllun tair blynedd i sicrhau bod ein hosteli yn ganolog i'r gymuned ac adeiladu ar waith allestyn gwych sy'n cael ei wneud eisoes. Rydym eisiau i fwy o bobl o bob oed a chefndir ddefnyddio ein hystafelloedd cyfarfod, caffis a mannau a rennir.

# Blaenoriaethau sy'n galluogi

6. **Cynnal rhwydwaith hyfyw o hosteli o ansawdd da** — lleoedd a mannau — sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau strategol.

7. **Cyflawni yn erbyn fframwaith o feincnodau safonol i'r diwydiant** sy'n defnyddio'r modelau gorau ar draws meysydd elusennau, mentrau cymdeithasol, lletygarwch a gwaith gyda phobl ifanc. Gweithio gyda thryloywder a chan ganolbwyntio ar brofiadau ein defnyddwyr — gan ragori mewn gwasanaethau digidol a gwasanaethau all-lein fel ei gilydd.


8. Cefnogi twf drwy barhau i **gynhyrchu gwarged arian blynyddol** sy'n cynorthwyo â'n bwriad strategol, wedi'i seilio ar **egwyddorion menter gymdeithasol**.

> Mae menter gymdeithasol yn sefydliad sy'n cael effaith gymdeithasol yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy fasnachu. Mae'r YHA yn elusen ac yn fenter gymdeithasol. Yr YHA yw un o'r mentrau cymdeithasol hynaf a mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae ein gweithgarwch masnachu yn cael effaith gymdeithasol uniongyrchol — gyda phob man gwely a werthwn, mae gennym y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y person sy'n cysgu ynddo. Ac mae'r incwm a gynhyrchwn yn ein helpu i redeg ein sefydliad, talu ein staff a chynnal a chadw ein hosteli.
>
> Mae menter gymdeithasol yn rhoi i'r YHA maint, y gallu i gyflwyno pethau'n unol â safon benodol a chynhyrchu incwm cynaliadwy. Mae'r cynaliadwyedd hwn yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer effaith gynyddol ac ariannu'r effaith honno ac, o'i gyfuno ag incwm a gafwyd drwy godi arian a ffioedd aelodaeth, gallwn ddatblygu rhaglenni newydd sy'n cysylltu hyd yn oed mwy o bobl â natur, yr awyr agored, diwylliant a threftadaeth ac sy'n helpu i feithrin sgiliau bywyd.

9. Cydnabod bod y risgiau i'r amgylchedd ac i'r byd a'i boblogaeth yn fygythiad real ac uniongyrchol drwy gysylltu pobl â natur. Byddwn yn gosod esiampl gref — yn y ffordd y byddwn yn defnyddio ein hasedau a thrwy ein gwaith gyda phartneriaid **byddwn yn helpu i wella'r amgylchedd**.

10. **Meithrin cefnogaeth i achos hostela** — defnyddio ein hanes 90-mlynedd i gadarnhau pwysigrwydd hostela i bawb heddiw; cynyddu niferoedd yr aelodau ond hefyd faint o aelodau sy'n weithgar gyda'r YHA; ac arwain y mudiad i'r rhai sy'n cefnogi hostela fel llwybr i deithio fforddiadwy ac antur.

> Rydym yn adfer hostela fel mudiad a'r gair hostel fel ased. Dylai hostela fod yn rhan hanfodol o becyn cymorth person ifanc i fywyd.
>
> Hostela — yr arfer o aros mewn hostel wrth deithio fel rhan o fudiad rhyngwladol sy'n ymroi i eco deithio, twristiaeth gynaliadwy a'r economi rhannu.
>
> Hostel — math o lety cymdeithasol a rennir, sy'n fyrdymor ac yn rhatach, ac yn cynnwys gallu defnyddio lolfa a chegin. Mae ystafelloedd preifat ac ystafelloedd cysgu ar gael bob amser. Mae hosteli'n rhan o'r economi rhannu ac yn caniatáu i bobl gyfarfod ag eraill o bob rhan o'r byd, dod o hyd i bartneriaid teithio a rhannu syniadau a phrofiadau am deithio. Mae hosteli — gan gynnwys hosteli ieuenctid — i bobl o bob oed.





# I gloi

## Fframwaith ar gyfer newid yw strategaeth.

**Beth mae'r strategaeth, y weledigaeth ar genhadaeth hon, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau yn golygu ein bod yn ei wneud yn wahanol?**

- Rydym wedi cychwyn o dystiolaeth bod yr hyn yr ydym yn ei wneud eisoes yn cael effaith ond y gallem gyrraedd mwy o bobl, amrywiaeth ehangach o bobl a phobl mae arnyn nhw angen yr hyn sydd gennym i'w gynnig mwyaf.
- Gwyddom hefyd fod yr effaith yn fwy os ydym yn meithrin perthnasoedd dyfnach â phobl fel eu bod yn aros, ymaelodi, rhoi a gwirfoddoli gyda ni.
- A gwyddom fod ein hansawdd yn dda ond y gellir ei ddatblygu — yn arbennig yn y pethau hynny rydym yn eu gwneud ar hyn o bryd fel pethau cysylltiedig, damweiniol ac ar raddfa lai nag arosiadau dros nos e.e. gweithgareddau, datblygu sgiliau bywyd, ymweliadau dydd a chynorthwyo â chysylltiadau â natur a'r awyr agored, treftadaeth a diwylliant.

# Yr hyn a wnawn i gyflawni ein nodau

**Byddwn yn datblygu cynlluniau busnes sy'n nodi'r gwaith yr ydym yn ei wneud i wireddu'r strategaeth yn ymarferol. Mae'r camau gweithredu allweddol dros y blynyddoedd i ddod yn cynnwys:**

## Graddfa

**Byddwn yn**

- canolbwyntio mwy ar sut y gall mwy o grwpiau ddefnyddio ein hosteli – yn enwedig ysgolion a grwpiau ieuenctid ond hefyd cymunedau, grwpiau o ffrindiau a'r rhai sydd eisiau llogi hosteli cyfan.
- datblygu ein strategaeth cyfalaf i barhau i sicrhau bod gennym yr hosteli iawn, yn y lleoedd iawn, yn unol â'r safonau iawn.
- ystyried ein holl ffrydiau incwm posibl ac yn sicrhau bod gennym y cyfuniad gorau ar gyfer elusen fodern a menter gymdeithasol lewyrchus.
- defnyddio ein pen-blwydd yn 90 oed a lansiad y strategaeth i gyrraedd cynulleidfaoedd, partneriaid a phroffil newydd.

## Dyfnder

**Byddwn yn**

- datblygu ein cynnig i aelodau er mwyn annog aelodau i ymwneud â YHA hyd yn oed yn fwy ar bob lefel.
- deall ein hystâd yn well a – gan gynnal safonau'r elusen gyfan – yn edrych ar sut y gallwn wneud y mwyaf o nodweddion unigryw pob hostel.
- parhau i fuddsoddi mewn pobl, technoleg gwybodaeth a gwasanaethau digidol gan ganolbwyntio'n benodol ar sut mae hyn yn gwella profiad y defnyddiwr ac yn annog taith gydol oes gyda'r YHA.



## Mynediad

**Byddwn yn**

- sicrhau bod ein gwaith llywodraethu, ein staff a'n defnyddwyr yn adlewyrchu demograffeg Cymru a Lloegr, gan ganolbwyntio'n fuan ar ymgysylltu â phobl ifanc a dealltwriaeth well o bwy sy'n aros ac yn gweithio gyda ni ar hyn o bryd.
- blaenoriaethu ein profiad i'r defnyddiwr gan gynnwys edrych ar bob cam o daith y defnyddiwr.
- edrych fwyfwy ar sut yr ydym yn defnyddio ein hosteli ar gyfer ymweliadau dydd ac fel rhan o'u cymuned leol.
- datblygu ein proffil, presenoldeb a pherthnasoedd yng Nghymru.
- datblygu rhaglenni newydd ar gyfer cynulleidfaoedd penodol gan gynnwys y rhai sydd â'r bywydau mwyaf heriol.

## Ansawdd

**Byddwn yn**

- gweithio gyda phartneriaid a chyllidwyr ar draws y sector cyhoeddus a gwirfoddol i ddatblygu cynnig ein rhaglen – parhau i fod yn brif ddarparwr preswyl a chynnig amrywiaeth gynyddol o weithgareddau o ansawdd da sy'n cysylltu pobl â natur a'r awyr agored, diwylliant a threftadaeth.
- creu cynghrair – Access Unlimited – gan ddwyn ynghyd sefydliadau dielw uchelgeisiol i helpu i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i fwynhau tripiau ac arosiadau rheolaidd.
- datblygu Campws a Chwricwlwm yr YHA – gan ehangu ein cynnig gwirfoddoli a gweithio i ddarparu profiadau gwaith newydd, interniaethau a llwybrau i gyflogaeth.
- datblygu a darparu fframwaith ansawdd sy'n sicrhau ein bod yn falch o bob hostel ac sy'n ein meincnodi yn erbyn y goreuon yn sector elusennau a sector lletygarwch.
- datblygu cam nesaf ein strategaeth amgylcheddol, gan ddiffinio sut y gall ein hosteli a hostela arwain y ffordd ym maes twristiaeth gynaliadwy.

# O ble daw ein hyder y gallwn dyfu?

**Mae'r canlynol yn wir:**

- Rydym eisoes yn rhedeg 150 o hosteli, lleoedd a mannau gwych, ac mae Hostelling International yn barnu mai ni yw'r sefydliad gorau yn y byd o ran boddhad gwesteion.
- Rydym yn un o'r mentrau cymdeithasol mwyaf a mwyaf llwyddiannus yng Nghymru a Lloegr. Drwy weithredu ein rhwydwaith yn effeithlon, mae'r refeniw a gynhyrchwn yn talu'r rhan fwyaf o'n costau, sy'n golygu ein bod yn sefydlog a, gyda hyn, yn gallu defnyddio incwm a gafwyd drwy godi arian i gefnogi ein heffaith a'n huchelgeisiau ymhellach.
- Rydym eisoes yn gweithio gydag 1 filiwn o bobl y flwyddyn. Mae bron hanner y gwesteion hyn yn iau na 26 oed ac rydym yn darparu gweithgareddau i fwy na 150,000 o bobl ifanc bob blwyddyn.
- Mae gennym fwy na 140,000 o aelodau y mae eu cyfraniadau'n cynorthwyo â'n gwaith ac y mae eu lleisiau'n siapio ein gwaith llywodraethu.
- Rydym yn rhan o fudiad hostela rhyngwladol ac mae gennym 90 mlynedd o brofiad.
- Mae gennym fwy na 1,300 o gyflogeion rhyfeddol a 16,000 o wirfoddolwyr cofrestredig.
- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid gwych.


# A sut all pobl fod â hyder ynom ni?

**Byddwn yn adrodd mewn ffordd onest a thryloyw am ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys mesur sut yr ydym yn gwneud yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol. A byddwn yn cynnwys storïau'r rhai yr ydym wedi gweithio gyda nhw a throstyn nhw. Yn ogystal ag asesu cynnydd yn erbyn ein targedau pum-mlynedd:**

**Byddwn yn**

- mesur nifer yr ysgolion â'r adnoddau lleiaf sy'n aros neu'n hyfforddi pobl ifanc gyda'r YHA.
- mesur nifer y bobl ifanc sy'n cael antur neu brofiad gyda'r YHA.
- mesur nifer y bobl sy'n dweud eu bod wedi gallu mwynhau natur, yr awyr agored, diwylliant a threftadaeth fel rhan o'u harhosiad.

Caiff hyn ei ddwyn ynghyd yn ein hadroddiad effaith blynyddol a'n cyfrifon blynyddol, a fydd hefyd yn nodi perfformiad yn erbyn dangosyddion ariannol, amgylcheddol a risg allweddol, a lefelau boddhad cyffredinol ymysg y rhai sy'n aros, yn gwirfoddoli ac yn gweithio gyda ni. Ac fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu datblygu mesur cyffredinol o'n gwerth cymdeithasol.



# Adeiladu'r strategaeth. Byw'r strategaeth.

Mewn sefydliadau, mae pobl yn aml yn canolbwyntio ar y ddogfen strategaeth fel y man terfyn. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, y man hanner ffordd yw hi.

Dechreuodd gwaith ar y strategaeth hon yn gynnar yn 2019 – gan adolygu effaith ein gwaith blaenorol yn ein hadolygiad effaith 2018/19 ac ystyried sut y gallai profiad 90 mlynedd ychwanegu'r gwerth mwyaf yn y gymdeithas gyfoes.

Mae ymddiriedolwyr, staff, aelodau, defnyddwyr a phartneriaid wedi siapio ein meddylfryd ac ym mis Mai 2019 lansiasom y ddogfen sgwrsio am ein strategaeth. Yn sgil yr ymatebion i hyn, gwelwyd cynnydd pellach yn ein gwaith a cheir crynodeb o'r ymatebion mewn dogfen a gyhoeddir cyn bo hir o'r enw 'You said, we did: responses to YHA's strategy conversation document'.

Cytunodd Bwrdd yr YHA ar strategaeth 'Antur. Am y tro cyntaf ac am oes' ym mis Chwefror 2020 a hi yw'r sail i'n cynlluniau am y blynyddoedd i ddod.

Diolch i bawb sydd wedi bod ar y daith gyda ni hyd yn hyn. Ac i'r rhai a fydd yn ymuno â ni ar ein hanturiaethau nesaf, wrth inni ddod allan o'r cyfnod ansicr hwn.

Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.



# Gweledigaethau o 2030

## Yr hyn y gallem fod yn ei ddweud am YHA ymhen deng mlynedd

"Mae'r YHA yn cynnig anturiaethau cynhwysol mewn adeiladau unigryw mewn lleoedd rhyfeddol. Rydym yn cysylltu pobl â'i gilydd, â natur, â threftadaeth ac â phethau sy'n agos at eu calonnau. Ni yw'r prif ddarparwr hosteli yn y byd.

Rydym yn un o'r mentrau cymdeithasol mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn falch o fod yn elusen. Rydym yn falch ein bod wedi arloesi ym maes twristiaeth gynaliadwy ac wedi rhoi gwedd newydd arni ar gyfer ein hoes ni.

Rydym yn elusen flaenllaw ym maes ieuenctid ac addysg. Mae gennym gysylltiadau â phob ysgol yng Nghymru a Lloegr ac rydym yn gweithio gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid i gynorthwyo â mynediad i gwricwlwm cyfoethog a llawn, a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Rydym wedi cefnogi datblygiad personol anturwyr ifanc gan eu harwain at ddiddordebau newydd mewn natur a threftadaeth; rhoi iddynt sgiliau i'w cynnal eu hunain a'u cymunedau a'u cysylltu ag eraill sy'n rhannu gwerthoedd y mudiad hostela.

Ar adeg pan fo'n fwyfwy anodd llywio gyrfaoedd – a gyda bylchau cynyddol mewn cyfleoedd bywyd – rydym wedi arwain y ffordd wrth feithrin sgiliau pobl ifanc. Rydym wedi eu helpu i gynnal eu cyflogadwyedd eu hunain. Rydym wedi eu helpu i ddatblygu i fod yn ddinasyddion gweithgar â chysylltiadau da yn eu cymuned a'u gwlad, Ewrop a'r byd.

Mae miloedd o bobl ifanc wedi defnyddio Campws yr YHA i ddatblygu eu cyfleoedd bywyd ac mae llawer wedi cael swyddi ar draws sectorau elusennau, lletygarwch, gweithgareddau awyr agored, treftadaeth ac addysg.

Gallwn ddangos bod ein gwaith yn gwella lles meddyliol a gweithgarwch corfforol ac rydym yn awr yn chwarae rhan allweddol yn iechyd Cymru a Lloegr.

Rydym wedi cyflwyno cenhedlaeth o ddinasyddion i'r awyr agored ac awydd angerddol i warchod yr amgylchedd. Rydym wedi gwneud hyn drwy ein presenoldeb mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol; drwy roi cyfle i fwynhau'r awyr agored a ddarperir gan ein holl hosteli – mewn dinasoedd, yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir – a thrwy bartneriaethau ag elusennau amgylcheddol.

Cydnabyddir ein bod yn un o brif warcheidwaid y gallu i fwynhau treftadaeth ac mae pob rhan o'r gymdeithas yn hoff iawn o'n lleoedd a'n mannau.

Rydym wedi codi'r safon o ran tryloywder ac effeithlonrwydd elusennau. Rydym yn un o'r elusennau yr ymddiriedir fwyaf ynddynt yn y Deyrnas Unedig.

Mae ein Bwrdd a'n gweithlu yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn. Rydym wedi mynd i'r afael nid yn unig â'r bwlch cyflogau rhwng y ddau ryw ond y bwlch ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig hefyd. Mae ein buddsoddiad mewn pobl wedi dod â budd i ni, i'r gymuned ehangach ac i'r diwydiannau yr ydym yn rhan ohonynt.

Ac rydym wedi ail-ddiffinio'r mudiad hostela fel ei fod yn gymuned uchel ei phroffil â chysylltiadau da – gan osod hostela wrth galon adnewyddu sifil."

Ni yw'r YHA.

Rydym ni'n trawsnewid bywydau ifanc am byth drwy deithio ac antur go iawn.

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi**

aros | ymaelodi | rhoi | gwirfoddoli yha.org.uk

YHA (England & Wales), Trevelyan House, Dimple Road, Matlock, Derbyshire DE4 3YH Rhif Cwmni 282555 Rhif Elusen Gofrestredig 306122